Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ein dull rheoleiddio i gefnogi rheoli adnoddau naturiol

Fersiwn Gweithio 1
Awst 2014

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3
Rheoli Adnoddau Naturiol – y darlun ehangach ..... 4
  Beth yw rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol? ..... 5
Ein Hegwyddorion Rheoleiddio ..... 6
  1. Cyflwyno deilliannau ..... 6
  2. Yn barod i herio ..... 7
  3. Bod yn hyblyg ..... 7
  4. Bod yn ddeallus ..... 8
  5. Defnyddio’r amrediad llawn o offer sydd ar gael ..... 8
  6. Dod â’r sgiliau / arbenigedd cywir ynghyd ..... 9
  7. Bod yn glir ynglŷn â’r hyn rydym yn ei wneud a pham ..... 9
  8. Bod yn effeithiol ac yn effeithlon ..... 9
Beth fyddwn ni’n ei wneud, a sut fyddwn ni’n ei wneud ..... 10
Cod y Rheoleiddwyr ..... 11
Ein “Pecyn Offer” ..... 11
Y rôl sydd gan eraill i’w chware i wella ein hegwyddorion a’r hyn rydym yn ei wneud ..... 12

## Cyflwyniad

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol.

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru amrediad eang o rolau a chyfrifoldebau ac fel sefydliad mae gofyn iddo fod yn hyblyg i sicrhau fod pobl, busnesau a'r amgylchedd yn medru ffynnu gyda'i gilydd. Un o'n rolau allweddol yw fel rheoleiddiwr, ac rydym wedi datblygu egwyddorion a fydd yn arwain ein dull o reoleiddio eraill. Mae hyn yn gryn her gan ein bod yn rheoleiddio tua 1,700 o safleoedd diwydiannol, gwastraff a dŵr yn uniongyrchol ledled Cymru, yn rhoi dros 10,000 o drwyddedau, 65,000 o drwyddedau gwialen bysgota, 480 o drwyddedau torri coed a 100 o drwyddedau morwrol bob blwyddyn.

Ni yw'r corff mwyaf yng Nghymru sy'n cael ei ariannu gan y Llywodraeth, gyda bron i 1,900 o staff ac incwm o £180 miliwn (yn 2014/15). O hyn, mae tua 20% o'r incwm o gynlluniau codi tâl.

Yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014 – 2017, nodwn:

- *Byddwn yn cynorthwyo i warchod a gwella ansawdd ein haer, ein tir, ein môr a'n dŵr.*
- *Fel rheoleiddiwr, byddwn yn darparu cyngor a phenderfyniadau clir yn seiliedig ar dystiolaeth a hynny'n amserol er mwyn galluogi busnesau yng Nghymru i weithredu'n effeithiol a chyflawni'r safonau amgylcheddol gorau*
- *Byddwn yn gweithio gyda busnes, diwydiant a'r llywodraeth i gefnogi datblygiad isadeiledd allweddol ac annog datblygiadau yn y mannau iawn i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ein hadnoddau naturiol*
- *Byddwn yn cyflwyno ymateb effeithiol a chydlynol i ddigwyddiadau a risgiau amgylcheddol, megis digwyddiadau llifogydd, llygredd ac afiechydon ac yn helpu i leihau perygl llifogydd i bobl ac eiddo*
- *Byddwn yn datblygu dull Cymru i reoli adnoddau naturiol yn integredig fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau*
- *Byddwn yn sicrhau fod gennym ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd, ein heconomi a'n pobl yng Nghymru, ac o le Cymru yn y byd, a byddwn yn parhau i adolygu ein tystiolaeth i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru*
- *Byddwn yn datblygu ac yn rheoli sail tystiolaeth gadarn i gefnogi ein dulliau gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol ac yn cynghori ar benderfyniadau a wneir gan eraill*
- *Byddwn yn gwella ein gwasanaethau i gwsmeriaid a'n perthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid yn barhaus drwy ddulliau agored a chydweithredol*

Mae'r dull rydym yn ei ddisgrifio yn y ddogfen hon yn sôn am sut byddwn yn cyflwyno ein nodau, gan ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio gydag eraill – i warchod pobl, yr amgylchedd a busnes. Mae gennym fynediad i amrediad eang o offer, nad ydynt yn gyfyngedig i'r rheini yr ystyrir eu bod yn ddulliau rheoleiddio yn unig. Mae offer a dulliau eraill, megis economaidd, gwirfoddol a'r defnydd o rannu gwybodaeth, sydd, yn gysylltiedig

ag ymgysylltu ac atal cynnar, yn darparu amrediad o ffyrdd i ni gyflwyno’r deilliannau yr ydym yn ceisio’u cyflawni yn effeithiol.

Er mwyn y rheini rydym mewn cyswllt â hwy ac er ein mwyn ein hunain, rydym yn nodi:

- sut rydym am geisio diffinio rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol;
- ein cyfres wreiddiol o egwyddorion rheoleiddio;
- trosolwg o’r hyn rydym am ei wneud a sut byddwn yn ei wneud; a
- sut rydym yn bwriadu cynnwys eraill er mwyn gwella ein dulliau rheoleiddio yn barhaus.

Bydd rhaglen waith ar gyfer cyflwyno rheoleiddio gyda thargedau a mesurau llwyddiant yn cael ei datblygu ar wahân er mwyn cyd-fynd â’r egwyddorion rheoleiddio hyn. Rydym yn diffinio ein gwaith rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol a’r hyn mae’n ei olygu ar gyfer y dulliau a gymerwn.

Rydym hefyd yn amlinellu ymhle a sut yr ydym am wreiddio ein gwerthoedd. Rydym yn angerddol ac yn uchelgeisiol, yn ddisgybledig ac â ffocws pendant, yn gorff y gellir ymddiried ynddo ac yn broffesiynol, yn gyfrifol ac yn atebol ac yn defnyddio synnwyr cyffredin.

## Rheoli Adnoddau Naturiol – y darlun ehangach

Gofynnwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio dulliau mwy cydlynol i reoli a gofalu am ein hamgylchedd a’i adnoddau naturiol. Yn aml, cyfeirir at y dulliau cydlynol hyn fel y Dull Ecosystem. Nid yw’n rhagnodol, ond mae’n rhoi egwyddorion arweiniol am weithio gyda natur ar gyfer amgylchedd iach a gwydn, er mwyn pobl a byd natur. Mae’n ffordd o ystyried yr amgylchedd - a’i iechyd - yn ei gyfanrwydd, yn hytrach nag ymdrin ag agweddau unigol ar wahân. Bydd yn caniatáu i’n prosiectau a’n rhaglenni gyflwyno cynifer o fuddion ag sy’n bosib ar gyfer pobl, amgylchedd a busnesau yng Nghymru.

Rheoli adnoddau naturiol yw sut byddwn yn rhoi’r gweithio integredig hwn ar waith.

Mae’n fframwaith i annog adnabod diben cyffredin. Y nod yw gweithio gyda chydweithwyr eraill, cymunedau, diwydiant a’r Llywodraeth o’r cychwyn cyntaf er mwyn sefydlu nodau ac amcanion cyffredin ar gyfer gweithgaredd neu leoliad penodol.

Mae’n ffordd o’n helpu ni i gyd i ddarganfod enillion ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, a bydd yn ein galluogi i gymryd dulliau mwy integredig ar draws ein holl waith o’r dechrau.

Gall hyn wneud defnydd o’n hamrediad traddodiadol o offer i warchod yr amgylchedd, ond bydd hefyd yn ei gwneud hi’n ofynnol i ni gynnwys rhai newydd a fydd yn ein cynorthwyo i gyflawni hyd yn oed yn fwy. Mae hyn hefyd yn ein hannog i ystyried graddfa ofodol ac amserlen ein gweithredoedd, rheoli ein dulliau ar y lefel fwyaf priodol (er enghraifft, seiliedig ar le) er mwyn cynorthwyo i gyflawni deilliannau cyffredin. Bydd hyn hefyd yn ein hannog i feddwl am bryd i weithredu ac edrych ar ymhle y gallai ymyrraeth gynnar neu atal gyflwyno deilliannau gwell.


Mae gweithredu rheoli adnoddau naturiol yn faes gwaith sy’n esblygu a fydd yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru sy’n datblygu ei pholisi ar reoli adnoddau naturiol integredig.

### Beth yw rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol?

Wrth ystyried rôl rheoleiddio yng nghyswllt rheoli adnoddau naturiol, rhaid i ni ystyried sut mae cymdeithas yn elwa o ecosystemau. Diffinnir y rhain fel gwasanaethau ecosystem.

Gellir rhannu’r gwasanaethau hyn yn bedwar categori – gwasanaethau cefnogi, gwasanaethau darparu, gwasanaethau rheoleiddio a gwasanaethau diwylliannol. Gall y gwasanaethau ecosystem hyn, megis rheoli dŵr a pheilliad (gwasanaethau rheoleiddio) neu danwydd a bwyd (gwasanaethau darparu) gael eu heffeithio gan weithgareddau newydd (gyda llygryddion newydd), technolegau newydd, sylweddau newydd a/neu grynhoad neu leoleiddio’r rhain yn yr amgylchedd a allai gyfaddawdu neu leihau gwydnwch yr ecosystemau hyn i ddarparu amrediad o wasanaethau a rhoi diwedd ar fuddion i gymdeithas.

Gall rheolaeth allanol – rheoli adnoddau naturiol – warchod neu wella gwydnwch a chapasiti ecosystemau a’r gwasanaethau maen nhw’n eu darparu, er mwyn ymdrin â phwysau gwneud neu naturiol, fel y gallant barhau i roi buddion i gymdeithas.



Y farn hon sy'n ein galluogi i ystyried pa fath o reoleiddio sydd ei angen i gyfrannu at y system reoli ar gyfer gwasanaethau ecosystem, a chefnogi rheoli adnoddau naturiol. Nid ydym yn diffinio sut i wneud hynny yma, ond yn anelu i roi trosolwg o pam fod angen rheoleiddio ar ryw ffurf. Mae hyn hefyd yn atgyfnerthu'r syniad bod rheoleiddio'n fwy na gweithredu'r gyfraith yn syml, ac yn rhoi barn ehangach ynghylch yr hyn yr ydym ni, gan weithio gydag eraill, yn ceisio'i gyflawni.

## Ein Hegwyddorion Rheoleiddio

O ystyried y cyd-destun eang hwn ar gyfer rheoleiddio, bydd yn amhosibl diffinio'r holl ddulliau posibl ym mhob amgylchiad. Bydd gofyn i ni allu ymateb, yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r amgylchiadau, gan gofio canolbwyntio ar y deilliant nid ar y broses. Fodd bynnag, bydd gofyn i ni barhau i weithio o fewn y gyfraith, a'i hymrwymiadau, ond byddwn yn ceisio gwella'r ffordd rydym yn gwneud pethau.

Felly, rydym wedi edrych ar fabwysiadu dull egwyddorion, ac rydym wedi diffinio ein cyfres gyntaf o wyth egwyddor rheoleiddio, sydd hefyd yn adlewyrchu'r deuddeg egwyddor graidd sy'n cyfarwyddo rheolaeth adnoddau naturiol. Ar gyfer pob un o'r rhain, rydym yn ystyried nodweddion penodol yr egwyddor, ynghyd â'r her o gyflwyno yn erbyn yr egwyddor.

### 1. Cyflwyno deilliannau

***Byddwn yn ceisio cyflwyno deilliannau amgylcheddol, nid rheoleiddio yn unig, gan geisio cyflwyno deilliannau ar y cyd ble bo hynny'n bosibl.***

Mae hyn yn sicrhau bod y gwaith rydym yn ei wneud wedi'i wreiddio mewn cyflwyno deilliannau. Mae hyn yn esbonio rôl rheoleiddio fel teclyn i gyflwyno deilliannau cadarnhaol. Mae hyn yn ein galluogi ni i ystyried deilliannau sy'n adlewyrchu dewis cymdeithasol a sut y byddem am i'n hecosystemau weithredu a bod yn wydn.

Er enghraifft, drwy edrych ar ddulliau seiliedig ar ardal i gyflwyno'r deilliant rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol, drwy dreialu, gallwn ddeall beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio ein sgiliau a'n gwybodaeth ni ac eraill. Byddai cyflwyno deilliant o'r fath yn dod â buddion i bobl, amgylchedd a busnesau Cymru.

Yr her i ni:

- Datblygu dangosyddion perfformiad ystyrlon sydd nid yn unig yn adlewyrchu effeithlonrwydd, ond hefyd effeithiolrwydd cyflwyno'r deilliant a ddymunir.
- Llwyddo wrth ddiffinio a rhannu nodau cyffredin, a medru esbonio'r rhain i eraill.
- Sicrhau ein bod yn **ddisgybledig** ac yn **canolbwyntio** ar y deilliant, ac nid ynghlwm â'r broses yn unig.

## 2. Yn barod i herio

***Byddwn yn herio ac yn mynd i’r afael â rhwystrau os nad ydynt yn cyfrannu at y deilliant amgylcheddol.***

Drwy adolygu pa mor effeithiol ydym wrth gyflwyno deilliannau, cawn ein hannog i herio’r ffordd yr ydym yn gweithio a sut rydym yn cyflwyno. Mae hyn hefyd yn edrych ar ein hannog ni i adnabod ac amlinellu’r rhwystrau posib i gyflwyno deilliannau, ac edrych ar ffyrdd o gael eu gwared nhw.

Yr her i ni:

- Datblygu parodrwydd i herio’r hyn nad yw’n gweithio (er enghraifft, herio mân-reolau parhaus).
- Bod yn barod i amlygu’r angen am newid deddfwriaethol os nad ydynt yn cyflwyno deilliannau, gan gydnabod bod gofyn i ni weithredu o fewn fframwaith cyfreithiol a’i weithredu (ni allwn “anwybyddu’r gyfraith”).
- Sicrhau ein bod yn gwirio ein bod yn “addas i’r pwrpas” yn barhaus, a chan ddefnyddio **synnwyr cyffredin**.

## 3. Bod yn hyblyg

***Byddwn yn ceisio bod yn hyblyg ac yn addasu’n dulliau i gyd-fynd ag anghenion y sawl sy’n derbyn y gwasanaeth, gan ddefnyddio dulliau arloesol a newydd ble bo hynny’n briodol a dysgu oddi wrth brofiad y gorffennol.***

Mae hyn yn ein hannog i ddeall diddordebau a chymhelliad y rheini rydym yn eu cyfarfod. Bydd angen i ni drafod, datblygu perthnasau aeddfed ac osgoi rhoi cyfarwyddiadau yn unig. Fodd bynnag, rhaid i ni adnabod y bydd rhai angen mwy o gymorth a chefnogaeth, cyfarwyddiadau hyd yn oed, nag eraill. Rhaid i ni addasu pethau’n briodol, gan ystyried y rheini rydym yn trafod â nhw, ac ystyried ffactorau megis ymddygiadau a gwybodaeth ac ar gyfer busnesau, eu maint, eu sgiliau a’u gallu. Bydd rhaid i ni feithrin arloesedd a newydd-deb a pheidio â bod mor rhwym i brosesau hanesyddol a/neu ffiniau daearyddol rhanbarthau/ardaloedd y gorffennol.

Bydd rhaid i ni feddwl am raddfa ofodol ac amserlen ein gweithredoedd, a beth fyddai’r lefel a’r amser mwyaf priodol i wneud pethau. Bydd hyn hefyd yn ein hannog i feddwl am bryd i weithredu ac edrych ar ble byddai ymyrraeth gynnar neu atal yn cyflwyno gwell deilliannau. Bydd bod yn hyblyg yn caniatáu i ni reoli ac adnabod bod newid yn anochel.

Yr her i ni:

- Sicrhau bod gennym **gyfrifoldeb** ac **atebolrwydd** clir sy’n caniatáu penderfyniadau cymesur ac amserol.
- Bod yn eglur am sut byddwn yn darparu hyblygrwydd a chysondeb.
- Datblygu diwylliant ac amgylchedd gweithredu sy’n meithrin arloesi.
- Gallu diffinio’n gywir y graddfeydd gofodol a’r amserlenni priodol.

## 4. Bod yn ddeallus

***Dylem ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael o amrediad o ffynonellau a cheisio sicrhau bod y data rydym yn ei gasglu gan y rheini rydym yn eu rheoleiddio yn cyfrannu at y dystiolaeth i gyfarwyddo camau gweithredu i gyflwyno deilliannau.***

Bydd angen i ni sicrhau ein bod yn casglu ac yn defnyddio data yn effeithiol, gan ei gasglu unwaith yn unig ble bo hynny'n bosibl. Ble bo hynny'n bosibl, rhaid i ni weithredu egwyddorion Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a defnyddio'r data a gesglir i gyflwyno camau gweithredu sydd wedi'u cyfarwyddo'n ddeallus. Bydd hyn yn annog y defnydd o fathau a ffynonellau newydd o ddata a'i ddefnyddio gyda thechnegau datrys problemau i greu gwybodaeth. Bydd defnyddio tystiolaeth eang (gwybodaeth a data) yn cynorthwyo i gyfarwyddo dulliau sy'n seiliedig ar risg, ac amlygu'r meysydd blaenoriaeth sydd angen gweithred.

Yr her i ni:

- Datblygu parodrwydd i chwilio am broblemau a darganfod datrysiadau.
- Sicrhau ein bod yn defnyddio tystiolaeth yn llawn (yn cynnwys dadansoddi data, datrys problemau a'r wybodaeth maent yn ei chreu) i gyfarwyddo datrysiadau ac adnabod yr ymateb mwyaf effeithiol i broblem, a pham y byddem yn dewis ymateb o'r fath.
- Sicrhau bod tystiolaeth yn cyfarwyddo ein dulliau a'n penderfyniadau sy'n seiliedig ar risg.
- Sicrhau ein bod yn feirniadol am y data rydym ei angen ac yn gwella ein systemau ar gyfer ymdrin â data a'i rannu gydag eraill i ychwanegu gwerth.

## 5. Defnyddio'r amrediad llawn o offer sydd ar gael

***Byddwn yn ceisio defnyddio amrediad eang o offer, sy'n cael eu dewis am eu bod yn effeithiol wrth gyflwyno deilliannau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r gyfraith i ymdrin â'r rheini sy'n gweithredu'n groes i'r gyfraith, er mwyn gwarchod busnesau gonest, y gymdeithas a'r amgylchedd.***

Byddwn angen mynediad i becyn offer helaeth. Bydd gofyn i ni ddeall pa mor effeithiol yw'r offer a phryd ac ym mha gyd-destun y dylid eu defnyddio. Byddai offer o'r fath ddim o reidrwydd yn cael eu cyfyngu i reoleiddio, p'un ai'n rhai amgylcheddol neu gynllunio, ond bydd hefyd yn cynnwys offer ym maes economaidd, gwirfoddol a gwybodaeth. Gallai offer o'r fath gynnwys cyngor a chyfarwyddyd ar arferion da neu ganllawiau penodol ar sut i gydymffurfio â'r gyfraith. Yn ogystal, mae defnydd o offer cyfreithiol penodol os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, ac os mai dyma'r peth iawn i'w wneud.

Yr her i ni:

- Sicrhau y gallwn gael myned i becyn offer amrywiol a'n bod yn deall yn iawn beth yw cyfyngiadau ein hoffer ein hunain, a graddau eraill.
- Sicrhau ein bod yn osgoi defnydd rhagnodol o ddulliau llwyddiannus.
- Datblygu parodrwydd i wneud cynnydd cyflym i wneud y peth iawn, a medru ymdrin â'r effaith bosibl ar ein henw da.

## 6. Dod â'r sgiliau / arbenigedd cywir ynghyd

***Byddwn yn ceisio sicrhau bod gennym y sgiliau i ddefnyddio'r offer iawn yn effeithiol, neu gael mynediad at y rheini sy'n medru defnyddio'r offer iawn a gweithio gyda hwy.***

Bydd gofyn i ni weithio gydag eraill os bydd eu sgiliau a'u hoffer nhw yn cyflwyno'r deilliant gorau. Mae hyn yn cynnwys edrych ar yr offer (yn cynnwys rheoleiddio) sydd gan eraill ac asesu a fyddent yn galluogi i ni fod yn fwy hyblyg ac effeithiol. Wrth ddefnyddio ein hoffer ein hunain, rhaid i ni sicrhau bod gan ein timau'r sgiliau cywir i ddefnyddio'r hyn sydd ganddynt yn effeithiol ac yn effeithlon. Hefyd mae gofyn i ni gael mynediad at y sgiliau a'r wybodaeth gywir fel y gallwn ddeall eraill a thrafod gyda nhw'n effeithiol.

Yr her i ni:

- Sicrhau bod gennym y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn, sy'n **broffesiynol** ac y gellir **ymddiried** ynddynt a'u harfogi.
- Datblygu dulliau i sicrhau ein bod yn deall beth sy'n gweithio a pham.
- Datblygu ac ymestyn dulliau cydweithio a phartneriaethol.

## 7. Bod yn glir ynglŷn â'r hyn rydym yn ei wneud a pham

***Byddwn yn ceisio sicrhau bod pawb yn deall rôl a phwrpas y rheoleiddiwr a beth yw ein deilliannau, yn y fath fodd fel ei bod yn hawdd gweld y cyswllt rhwng yr hyn rydym yn ei wneud a pham ac er mwyn gwreiddio dull cyson.***

Bydd gofyn i ni allu esbonio'n glir yr hyn rydym yn ei wneud, a pham, mewn iaith ac arddull sy'n golygu rhywbeth i'r rheini rydym yn eu cyfarfod. Bydd hyn yn golygu bod yn agored a thryloyw, ac wrth ymgynghori, eglurder ar sut gall hyn gyfarwyddo'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

Yr her i ni:

- Sicrhau ein bod oll yn deall yr hyn rydym yn ei wneud a pham ac yn medru esbonio hyn i eraill.
- Sicrhau y gallwn esbonio rôl rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol integredig.
- Sicrhau ein bod yn darparu llwybr clir i'r rheini nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniadau, neu sut rydym yn ymddwyn, i godi pryderon gyda ni.
- Sicrhau ein bod yn darparu ffyrdd i'r rheini rydym yn trafod â nhw i ddarparu adborth ar yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud.
- Sicrhau ein bod yn glir ynghylch yr hyn gall eraill ei ddisgwyl gennym ni.

## 8. Bod yn effeithiol ac yn effeithlon

***Byddwn yn ceisio cyflwyno mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, gan weithio gydag eraill ble gallwn ni ac os yw hynny'n beth da i'w wneud.***

Bydd gofyn i ni allu esbonio'n glir beth yw ein safonau gwasanaeth, a sut byddwn yn mesur ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd. Bydd gofyn i ni fod yn glir ynghylch sut ac ymhle rydym yn gwario ein hincwm, a sicrhau ein bod yn taro cydbwysedd cywir rhwng

costau i’r busnes a chostau i’r trethdalwr.

Yr her i ni:

- Sicrhau ein bod yn datblygu dulliau i fesur effeithiolrwydd yr hyn rydym yn ei wneud.
- Sicrhau bod gennym safonau gwasanaeth clir ac yn darparu ffyrdd o adolygu ein hunain yn erbyn y safonau hyn a hysbysebu’r wybodaeth hon.
- Sicrhau ein bod yn glir ynghylch ein ffynhonnell incwm a pha fuddion a geir o’r incwm hwn.
- Sicrhau ein bod yn taro’r cydbwysedd cywir rhwng rhannu costau rhwng busnesau a threthdalwyr ynghyd â rhannu’r buddion o arbedion effeithlonrwydd.

## Beth fyddwn ni’n ei wneud, a sut fyddwn ni’n ei wneud

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a’u defnyddio’n gynaliadwy yn awr ac i’r dyfodol. Bydd ein dulliau i gefnogi gwydnwch a gwella chapasiti gwasanaethau ecosystem drwy reoli adnoddau naturiol, a chyflwyno rheoleiddio, yn ein cynorthwyo i gyflawni hyn.

Er mwyn cyflwyno’n effeithiol, rhaid i ni geisio cefnogaeth gan fusnesau ehangach (o fusnesau bychain a newydd i sefydliadau mwy sydd wedi hen sefydlu) a’r gymdeithas ble gallwn ni, gan gydnabod bod deilliannau cytûn yn cynyddu’r siawns i lwyddo yn fawr.

O ystyried yr amrediad eang o ddulliau, offer a sgiliau fyddai eu hangen i fodloni’r heriau o bosibl, ni fydd ein dyheadau hir dymor yn manylu ar sut i ‘reoleiddio’. Yn hytrach, bydd yn ymwneud â sut i gyflwyno deilliannau; gallu disgrifio’n hyderus sut y cyflawnir yr uchelgais honno.

Byddwn wedi cyflawni’r weledigaeth hon:

- Pan fyddwn yn gweithio o amgylch cyflwyno deilliannau sy’n cael eu cefnogi gan fusnes a’r gymdeithas, gyda chyfraniadau, mewnbwn a chyflwyniad posibl gan y grwpiau hyn.
- Pan fyddwn yn gweithio o amgylch rhaglenni a phrosiectau i gyflwyno’r deilliannau hyn.
- Pan fyddwn yn defnyddio tystiolaeth (gwybodaeth a data) i gyfarwyddo penderfyniadau ac adnabod problemau’n gynnar, ac wedi gwreiddio dadansoddi data a datrys problemau.
- Pan fydd gennym bobl fedrus a deallus, sydd wedi’u harfogi i wneud penderfyniadau yn unol â’n hegwyddorion.
- Pan fyddwn yn barod i herio’r *status quo* a rhwystrau i gyflwyno, yn cynnwys mynd ati’n rhagweithiol i adnabod deddfwriaethau neu brosesau sy’n niweidio cyflwyno deilliannau.

Ni fydd posibl i ni gyflawni’r weledigaeth hon dros nos, a bydd gofyn gweithio ar sut y byddwn yn cyflawni hyn. Bydd gofyn i ni ddod ag amrediad o sgiliau, profiad a chysylltiadau â sawl sefydliad arall (yn cynnwys rheoleiddwyr eraill yn y DU) ynghyd, sydd yn ei hun yn rhoi cyfle unigryw i ni ail-werthuso dulliau ac edrych ar sut i gyflwyno ein deilliannau cytûn yn effeithiol.

## Cod Rheoleiddwyr

Darganfu adolygiad ôl-weithredu Cod Cydymffurfio Rheoleiddwyr[1], er bod rheoleiddwyr wedi mabwysiadu'r egwyddorion gan fwyaf, roedd cyflwyno hynny'n anghyson ac nid oedd wedi newid diwylliant ac arferion rheoleiddio. Mae Cod Rheoleiddwyr wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Mae'n rhan o becyn o fesurau i wella'r berthynas rhwng rheoleiddwyr a'r rheini maent yn eu rheoleiddio a chael gwared â rhwystrau i dwf, drwy wella'r ffordd y mae rheoleiddio'n cael ei gyflwyno. Noda'r Cod:

1. Dylai Rheoleiddwyr ymgymryd â'u gweithgareddau mewn modd sy'n cefnogi'r rheini y maent yn eu rheoleiddio i gydymffurfio a thyfu
2. Dylai Rheoleiddwyr ddarparu ffyrdd syml o ymgysylltu â'r rheini maent yn eu rheoleiddio a chlywed eu barnau
3. Dylai Rheoleiddwyr seilio eu gweithgareddau rheoleiddio ar risg
4. Dylai Rheoleiddwyr rannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth a risg
5. Dylai Rheoleiddwyr sicrhau bod gwybodaeth, cyfarwyddyd a chyngor clir ar gael i helpu'r rheini y maent yn eu rheoleiddio i fodloni eu cyfrifoldebau i gydymffurfio
6. Dylai Rheoleiddwyr sicrhau bod eu dulliau gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw

Nid yw'r Cod Rheoleiddwyr hwn yn statudol yng Nghymru, ond mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ni ei ystyried wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio. Cyhoeddwyd hyn drwy ei datganiad polisi 'Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2009.

Wrth i ni gyflwyno'r Cod Rheoleiddwyr hwn (a'r manylion sydd ynghlwm â hynny) mae'n rhoi mecanwaith i gyflwyno nifer o'n Hegwyddorion Rheoleiddio ein hunain. Felly, byddwn yn mabwysiadu'r Cod Rheoleiddwyr fydd yn golygu y bydd hwn yn cael ei wreiddio i'n dulliau rheoleiddio yn y dyfodol.

## Ein "Pecyn Offer"

Eisoes mae gennym amrediad eang o offer, gyda nifer ohonynt yn seiliedig ar y pwerau a'r dyletswyddau cyfreithiol sydd gennym. Rydym hefyd yn y broses o ymgymryd â darnau gwaith galluogi i wella'r pecyn offer hwn, yn cynnwys gwaith ar godi ffi, ein dull o roi cyngor a chyfarwyddyd, a'n strategaeth rheoli tystiolaeth a gwybodaeth ymysg eraill. Hefyd, ceir cynigion ym Mhapur Gwyn Mesur yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru sydd, o bosibl, yn darparu offer newydd.

Mae gwaith ar y gweill ar yr offer mwyaf priodol, sut ac ymhle i'w gweithredu a sut i ddeall pa mor effeithiol ydyn nhw, ond maent yn debygol o gael eu grwpio yn seiliedig ar natur yr offer[2].

---

[1] Drafftwyd y Cod Cydymffurfio Rheoleiddwyr mewn ymateb i Adolygiad Hampton ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i reoleiddwyr ymgymryd â'u dyletswyddau mewn modd sy'n ddeniadol i fusnesau. Cyhoeddwyd hwn ym mis Rhagfyr 2007 gyntaf.

[2] O "Better Regulation Evidence: Topic Area 2 – Choose and design interventions – ER30 Final Summary Report", Ebrill 2013, SNIFFER. Ceir grwpiau eraill, yn cynnwys y rheini sy'n codi o waith yn ymwneud â Defra & Cranfield University Centre for Environmental Risk and Futures. Cawsant eu grwpio fel:

**Ymyriadau rheoleiddiols**

- Trwyddedu
- Rheolau Cyfrwymol Cyffredinol
- Archwiliadau
- Gorfodaeth
- Rheoli datblygu
- Atebolrwydd amgylcheddol
- Rheoli ar gynnyrch
- Cofrestru, labelu, ardystio

**Ymyriadau Economaidd ac ar Sail y Farchnad**

- Trwyddedau masnachadwy
- Trethi amgylcheddol
- Taliadau amgylcheddol
- Cymorthdaliadau a chymelliadau amgylcheddol
- Tâl am wasanaethau ecosystemol

**Ymyriadau gwirfoddol**

- Ymrwymiadau unochrog
- Cytundebau yn dilyn trafodaethau
- Rhaglenni gwirfoddol cyhoeddus
- Rheoleiddio corfforaethol preifat

**Ymyriadau ar sail Gwybodaeth a Chyfathrebu**

- Cyngor ac arweiniad
- Cydnabyddiaeth a enillwyd
- Mesurau perfformiad
- Tablau cynghrair
- Cyfranogaeth gyhoeddus

## Y rôl sydd gan eraill i'w chware i wella ein hegwyddorion a'r hyn rydym yn ei wneud

Rydym yn cydnabod nad yw rhanddeiliaid wedi cael cyfle eto i roi sylwadau ar ein dulliau cyfredol. Rydym wedi bod yn awyddus i sicrhau bod gennym rywbeth yn ei le yn awr sy'n adlewyrchu'n diben cyfredol a'r Cod Rheoleiddwyr.

Fodd bynnag, yn unol â'n Hegwyddorion Rheoleiddio, byddwn yn parhau i adolygu ein Hegwyddorion a'r ddogfen hon i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas. Er mwyn cefnogi hyn, ein bwriad yw i hon fod yn ddogfen fyw. Bydd yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â'r rheini sydd â diddordeb yn yr hyn rydym yn ei wneud, a sut rydym yn ei wneud.

Ein cynllun yw bod yn agored i dderbyn sylwadau, barnau, awgrymiadau a syniadau tan ddiwedd mis Mawrth 2015. Bryd hynny, byddwn yn edrych ar yr adborth ac yn defnyddio hwn i adolygu ein hegwyddorion a'n dull cyflwyno. Byddwn hefyd yn ystyried yr adborth yr ydym yn ei dderbyn gan Swyddfa Rheoliadau Gwell yn dilyn eu hadolygiad yng nghyswllt Cydymffurfiaeth Hampton a Chod Rheoleiddwyr yn hydref 2014.

Fodd bynnag, ni fyddwn wedi'n clymu i'r cyfnod adolygu hwn os cawn adborth sy'n rhoi cyfle i gyflwyno'r deilliannau yn fwy effeithiol. Byddwn yn ceisio gweithredu'r rhain cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Gellir cyflwyno adborth, sylwadau, awgrymiadau a syniadau i:
regulatory.principles@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Rheoleiddio Uniongyrchol, Offer Economaidd, Rheoleiddio ar y Cyd, Offer yn Seiliedig ar Wybodaeth, Rheoleiddio Sifig a Hunan-reoleiddio ac Adeiladu Cefnogaeth a Chapasiti.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwen, 8am - 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.